# Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

**2014 dccc 4**

## RHAN 8

SWYDDOGAETHAU GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

*Awdurdodau lleol*

### 143 Swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol

(1) At ddibenion y Ddeddf hon, swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol yw ei swyddogaethau o dan y deddfiadau a grybwyllir yng ngholofn gyntaf y tabl yn Atodlen 2 i'r Ddeddf hon (sef y swyddogaethau a ddisgrifir yn gyffredinol yn ail golofn yr Atodlen honno).

(2) Caiff Gweinidogion Cymru drwy orchymyn—

(a) ychwanegu eitemau at y tabl;

(b) dileu eitemau o'r tabl;

(c) diwygio eitemau yn y tabl.

### 144 Cyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol

(1) Rhaid i awdurdod lleol benodi swyddog, a elwir yn gyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol, at ddibenion swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod hwnnw.

(2) Ni chaniateir i awdurdod lleol benodi person yn gyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol iddo oni bai ei fod yn fodlon bod y person hwnnw wedi dangos y cymwyseddau a bennwyd gan Weinidogion Cymru.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru bennu'r cymwyseddau at ddiben is-adran (2) mewn cod a ddyroddir o dan adran 145 neu mewn rheoliadau.

(4) Caiff dau neu fwy o awdurdodau lleol, os ydynt o'r farn y gall yr un person gyflawni'n effeithiol, ar gyfer y ddau neu bob un ohonynt, swyddogaethau cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol, benodi un person yn gyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer y ddau awdurdod hynny neu ar gyfer pob un ohonynt.

(5) Rhaid i awdurdod lleol sydd wedi penodi, neu sydd wedi penodi ar y cyd, berson o dan yr adran hon sicrhau bod staff digonol yn cael eu darparu at ddibenion ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol er mwyn cynorthwyo'r cyfarwyddwr.